DATGANIAD I'R WASG
Dydd Llun 31 Mai 2010

HAUL DRWY'R WYTHNOS!

Gydag atyniadau newydd lu ar Faes Eisteddfod yr Urdd Ceredigion eleni, bydd yr arddangosfa wyddoniaeth, Gwyddon*Le*, yn siŵr o ddenu'r torfeydd.

Yn dilyn llwyddiant 'Gwychoniaeth' (Bysgio Ffiseg) yn yr ŵyl y llynedd, roedd Ceredigion 2010 yn awyddus i fynd gam ymhellach a chael arddangosfa wyddoniaeth ar y Maes.

Bydd digon i ddiddanu pawb o bob oed yn Gwyddon*Le*. Bydd amrywiol arddangosfeydd gwyddoniaeth, gan gynnwys gweithgareddau seryddiaeth, y gofod a chysawd yr haul, wedi eu noddi gan Gyngor Cyfleusterau Gwyddoniaeth a Thechnoleg ac wedi ei gefnogi gan wyddonwyr o Brifysgol Aberystwyth ymhlith eraill.

A beth bynnag y tywydd, bydd yr haul yn gwenu yn y pafiliwn gwyddoniaeth fel rhan o fodel wrth raddfa o gysawd yr haul, wedi ei greu gan ddisgyblion Ysgol Gynradd Gymunedol Dihewyd. Mae'r Haul, a llawer o'r planedau mewnol ar y Maes, gyda Neifion yn Theatr Felin-fach!

Angharad Thomas ydi Is-gadeirydd Pwyllgor Gwyddoniaeth 2010, ac wrth baratoi at yr Eisteddfod roedd y Pwyllgor lleol yn awyddus i ledaenu eu neges ledled Ceredigion. Meddai:

"Buom yn ymweld ag ysgolion gan annog disgyblion i edrych ar wyddoniaeth drwy lygaid newydd. Er enghraifft yn Ysgol Cwrtnewydd cyfunwyd gwyddoniaeth a dawns. Yn dilyn sesiwn casglu gwybodaeth am Gysawd yr Haul, bu'r plant yn gweithio gyda'r coreograffydd Jên Angharad i lunio dawns o'r enw Gwyddonddawns. Bydd y ddawns yn cael ei pherfformio yn y pafiliwn dawns yfory am 3:00 o'r gloch."

Bydd lawnsiad Gwyddon*Le* am 12:30yp ddydd Mercher (2 Mehefin), ond bydd yr Haul yn cael ei oleuo yfory am 10:00yb, gan y darlledwr a'r ffisegwr Dafydd Du.

Mae Aled Siôn, Cyfarwyddwr Eisteddfod a'r Celfyddydau'r Urdd, yn ffyddiog y bydd yr Eisteddfod yn llwyddiant:

"Eleni bydd sawl gweithgaredd newydd arall ar y Maes. Bydd Trên Bach y Maes yn cynnig cyfle i Eisteddfodwyr ymlacio tra'n mwynhau taith o amgylch y Maes a gerddi Llanerchaeron. Bydd saethyddiaeth, gweithdai samba a DJ a mwy o fandiau byw nag erioed o'r blaen."

A bydd Eisteddfodwyr yn gallu ymweld â stâd Llanerchaeron fel rhan o'u hymweliad hefyd, gan edmygu tŷ John Nash a'r gerddi a'r fferm.

Diwedd

Manylion pellach: Siân Eleri Davies 07976 330360 neu Manon Llwyd 07976 330361

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant ac ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yw un o wyliau ieuenctid celfyddydol mwyaf Ewrop.
- Bydd 40,000 o bobl ifanc yn cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau gan gynnwys llefaru unigol, corau, dawns, celf a chrefft, cyfansoddi a barddoniaeth.
- Ar lwyfan yr Eisteddfod y gwnaeth sêr fel Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi a Daniel Evans fwrw eu prentisiaeth.
- Mae'r Eisteddfod yn denu 100,000 o ymwelwyr, 15,000 o gystadleuwyr a bron i filiwn o wylwyr teledu.
- Mae'r Eisteddfod yn cynnal rhaglen lawn o gystadlaethau yn ddyddiol rhwng 11.00 y bore hyd at 5.00 y prynhawn, a chystadlaethau gyda'r nos ar y nosweithiau Llun, Iau, Gwener a Sadwrn.
- Cynhelir Eisteddfod 2011 ym Mae Abertawe ac Eisteddfod 2012 yn Eryri.

PRESS RELEASE
Monday 31 May 2010

GUARANTEED SUN!

With new attractions galore at this year's 2010 National Urdd Eisteddfod in Ceredigion, the science exhibition, Gwyddon*Le* (literally place for science) will surely draw the crowds.

Following the success of Gwychoniaeth (Physics Busking) at last year's festival, Ceredigion 2010 wanted to go one step further and have its own science exhibition on the Maes.

During the Eisteddfod week, there will be plenty to keep the young and old entertained in Gwyddon*Le.* There will be a range of science exhibits and competitions, including astronomy, space and solar system activities funded by the Science and Technology Facilities Council and supported by scientists from Aberystwyth University and the wider community.

Whatever the weather, the sun will shine in the science pavilion as part of a scale model of the Solar System created by pupils of Ysgol Gynradd Gymunedol Dihewyd. The Sun and many of the inner planets are on the Eisteddfod Maes, with Neptune to be found in Theatr Felinfach!

Angharad Thomas is Vice-Chair of Ceredigion 2010's Science Committee, and in the run-up to the Eisteddfod, the local committee was keen to go out on the road in Ceredigion, as she explained.

"We visited schools, encouraging pupils to adopt a different perspective on science. For example Ysgol Cwrtnewydd brought science and dance together. Following an information-gathering session on the Solar System, choreographer Jên Angharad worked with the children to devise a creative dance, entitled *Gwyddawns*, based on their findings. The dance will be performed in the dance pavilion tomorrow at 3:00pm."

The launch of Gwyddon*Le* is at 12:30pm on Wednesday (2 June 2010), but the Sun will be illuminated tomorrow by broadcaster and astro-physicist Dafydd Du, at 10:00am.

Aled Siôn, Director of the Urdd National Eisteddfod is confident this Eisteddfod will be a great success:

"This year, the festival will welcome a number of new activities on the Maes as well as Gwyddon*Le*, including the Trên Bach y Maes (land train), which will offer festival-goers a chance to put their feet up while they enjoy a guided tour of the Maes and the beautiful grounds of Llanerchaeron. There will also be archery, samba and DJ-ing workshops as well as more live bands than ever before."

And visitors will also of course be able to visit the glorious Llanerchareon estate as part of their day-out, exploring John Nash's villa, the gardens and the farm.

Ends

Further information: Siân Eleri Davies 07976 330360 or Manon Llwyd 07976 330361

- Urdd Gobaith Cymru is Wales' leading youth organisation.
- The Urdd has given children and young people exciting opportunities for over 80 years.
- The Urdd National Eisteddfod is one of the largest cultural youth festival in Europe.
- 40,000 young people will be competing in various competitions including recitation, choral singing, dance, arts and craft, composition and poetry.
- The Eisteddfod attracts over 100,000 visitors, 15,000 competitors and almost a million television viewers.
- Welsh stars such as Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi and Daniel Evans all gained valuable performing experience on the Urdd stage.
- The Eisteddfod offers wall to wall competitions between 11.00 - 5.00 and evening competitions on Monday, Thursday, Friday and Saturday.
- The Eisteddfod will be held in Swansea in 2011 and in Eryri in 2012.